
 Rhaglennu Java sy'n canolbwyntio ar wrthrych M250

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn addysgu'r syniadau sylfaenol y tu ôl i'r dull o raglennu sy'n canolbwyntio ar wrthrych drwy iaith raglennu Java a ddefnyddir yn eang. Drwy ganolbwyntio ar agweddau ar Java sy'n dangos egwyddorion ac arfer da sy'n canolbwyntio ar wrthrych orau, bydd myfyrwyr yn datblygu sylfaen gadarn ar gyfer astudio iaith Java ymhellach a datblygu meddalwedd sy'n canolbwyntio ar wrthrych. Bydd angen iddynt fod yn hyderus yn defnyddio cyfrifiadur personol a meddu ar brofiad o ysgrifennu rhaglenni cyfrifiadur bach; byddai'r modiwl Lefel 1 *Fy mywyd digidol* (TU100) yn ddelfrydol fel gwaith paratoi. Dylent hefyd allu ysgrifennu esboniadau byr o syniadau technegol yn eu geiriau eu hunain, a gallu cyfathrebu ag eraill yn electronig.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech wneud y canlynol:

- meddu ar radd mewn maes perthnasol neu brofiad ymarferol helaeth o raglennu sy'n canolbwyntio ar wrthrych
- bod yn gyfarwydd ag iaith raglennu Java a allai fod, er enghraifft, o ganlyniad i addysgu'r iaith; o ganlyniad i astudio un o gyrsiau Java'r Brifysgol (megis M254, M255, M257 neu M874) neu o ganlyniad i weithio gyda Java yn y diwydiant
- deall a dangos diddordeb yn y ffordd y mae Java'n cefnogi'r paradiem sy'n canolbwyntio ar wrthrych a'r ffordd y mae hyn yn cymharu ag ieithoedd rhaglennu eraill sy'n canolbwyntio ar wrthrych
- gwerthfawrogi dull sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr o ran datblygu sgiliau rhaglennu ac astudio, a'r ffordd y mae hyn yn sail i arfer da mewn amgylchedd dysgu o bell.

Caiff eich cais ei ystyried hefyd os oes gennych y canlynol:

- y gallu i addysgu ac asesu rhaglenni a ysgrifennwyd yn Java, a gwneud sylwadau arnynt
- profiad masnachol helaeth o ddylunio a rhaglennu sy'n canolbwyntio ar wrthrych yn Java.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu'r gwaith rhaglennu rhagarweiniol
- profiad o addysgu'r gwaith o ddatblygu meddalwedd gan ddefnyddio technegau sy'n canolbwyntio ar wrthrych ar lefel gradd
- profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar addysgu a chymorth o bell (ond darperir hyfforddiant lle bo angen).

Gwybodaeth ychwanegol

- Yn ogystal â marcio dau aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtor (TMA), efallai y bydd angen i chi hefyd ymateb i ymholiadau myfyrwyr ar bum aseiniad rhyngweithiol a gaiff eu marcio gan gyfrifiadur (iCMAs).

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5